

### *Dyddiadur taith Eric Harries, Ebrill 2006 (detholiad)*

Yn ystod yr wythnosau cyn inni adael, roedd Gareth Davies a minnau wedi bod yn poeni dipyn. Roedd Hufenfa Llangadog bellach wedi cau, ac felly fydden ni ddim yn derbyn y dunnell arferol o reis oddi yno (a oedd yn dipyn o help i lenwi'r fan), ac ar ben hyn, am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn, fe fydden ni'n teithio ar ein pennau ein hunain i Bosnia.

Ond, doedd dim rhaid i mi fod wedi pryderu cymaint. Cafwyd casgliadau llwyddiannus y tu allan i Tesco, Aberteifi, a Morrison's, Aberystwyth. Trefnodd Capel y Garn, Bow Street, gasgliad ar ein rhan, ac fe lwyddon nhw i gasglu swm anhygoel o fwyd i ni. Felly, erbyn y diwedd roedd 106 o focsys banana yn llawn o fwydydd gwahanol yn barod i'w cludo i Bosnia, a phwysau'r fan bron yn 7.5 tonnell fetrig, sef yr uchafswm cyfreithiol. Llenwyd y lle gwag uwchben y bocsys â bagiau'n llawn o flancedi, teganau a dillad wedi'u gwau – rhoddion gan bobl leol a rhai cyn belled â Dyffryn Aman. Roedden ni wedi casglu swp mawr o nwyddau wedi'u gwau o Gapel y Gwynfryn, Rhydaman, ychydig wythnosau cyn inni adael – dillad 'newydd' y byddai plant a babanod ardal Mostar yn eu gwisgo cyn hir. Pan oedden ni'n casglu'r deunyddiau o Rydaman, fe wnaethon ni hefyd recordio eitem ar gyfer y rhaglen deledu *Wedi Tri*.

#### *5 Ebrill*

Gadael Aberystwyth am 5 o'r gloch ar 5 Ebrill a chyrraedd Dover am 12.30. Y lle'n llawn o yrwyr blin; doedd cyfrifiadur dynion y tollau ddim yn gweithio ac roedd rhai o'r gyrwyr wedi bod yn aros am oriau i gael caniatâd i hwylio. Dyma gyflwyno'n ffurflenni a disgwyl y gwaethaf. Ond, yn wir, ymhen rhyw ugain munud, daeth y swyddog yn ei ôl, ac roedden ni'n rhydd i fynd ymlaen. Pwyso'r fan a'i llwyth, a phopeth yn iawn (diolch fyth!) – digon o amser i baratoi ar gyfer hwylio am 14.45. Yna, sylweddoli bod amserau'r llongau wedi newid, ond, trwy lwc, fe lwyddwyd i gael mynediad i'r llong oedd yn hwylio am 14.00 (diolch i garedigrwydd un o'r clerciaid).

Dwy awr ar y môr, teithio drwy Ffrainc a thros y ffin i'r Almaen, gan aros ger Koblenz. Roedd yn noson hyfryd, ac ar ôl swper sydyn, i'r gwely â ni.

#### *6 Ebrill*

Codi am 6.30 i ddiwrnod oer – popeth wedi rhewi, gan gynnwys stêm y tegell wrth iddo gyrraedd y ffenest flaen. Hwn, fel arfer, yw diwrnod caletaf y siwrne: 14 awr o yrru ar hyd yr Autoban drwy'r Almaen ac Awstria, ond cafwyd taith hwylus a chyrraedd Kozina ar y ffin rhwng yr Eidal a Slofenia erbyn 21.30. Treuliodd Gareth ei amser sbâr yn dysgu rhai ymadroddion syml a fyddai'n ddefnyddiol yn Mostar.

#### *7 Ebrill*

Cychwyn am 7 o'r gloch a chyrraedd Rupa ymhen yr awr. Mae Rupa ar y ffin rhwng Slofenia a Croatia, ffin sydd weithiau'n anodd ei chroesi. Ond y tro hwn, aeth popeth yn hwylus a dim ond siwrne o ryw 8 awr oedd o'n blaenau. Chwerthin wnaethon ni wrth weld yr arwydd 'Gwaith ffordd am y 40 kilometr nesaf' – ond nid jôc ydoedd! Cyrraedd Ploce erbyn 1700, ac aros yno i gwrdd ag Alen Kajtaž o'r Groes Goch yn Mostar i wynebu croesi'r ffin olaf y diwrnod canlynol.

### *8 Ebrill*

Cyrraedd y ffin erbyn 8 o'r gloch, ac roedd Alen yno i gwrdd â ni. Ond dyw amser yn cyfrif dim i weithwyr tollau Bosnia, ac mae'n ganol dydd arnon ni'n cyrraedd Mostar. Dadlwytho'r fan, ac roedd ein llwyth yn un sylweddol – o'i osod ar lawr warws y Groes Goch yno.

Byddwn ni'n aros yn nhŷ Hassan, ewythr i Alen, mewn fflat fechan, eithaf moethus o ran safonau Bosnia, ac mae dŵr poeth yn y gawod – derbyniol iawn ar ôl treulio tri diwrnod yn y fan ac awr chwyslyd yn dadlwytho.

### *9 Ebrill*

Cerdded o gwmpas Mostar, ac ymweld â'r mannau 'twristaidd'. Siomedig bod cyn lleied o 'dwrystiaid' eraill yno. Roedden ni wedi gobeitho y byddai ailagor y bont wedi llwyddo i ddenu mwy o ymwelwyr. Mynd am dro i'r farchnad leol, lle gallwch brynu unrhyw beth o offer coginio i gyw iâr byw a dillad chwaraeon o bob math.

Treulio'r pnawn yn ymweld â hen ffrindiau yn y pentrefi o amgylch Mostar. Teimladau cymysg oedd gennym wrth fynd i weld gweddw Omer, ffrind annwyl inni a fu farw'r llynedd. Ond roedd hi mor falch o'n gweld, ac fe wnaeth inni addo mynd yn ôl y tro nesaf y byddwn ni draw. Braidd yn dawel oedden ni ar y ffordd yn ôl i Mostar.

### *10 Ebrill*

Gyrru tua Sarajevo, tua dwy awr o daith o Mostar. Mae llawer o waith i'w wneud yno o hyd, ac nid yw rhai o'r pentrefi ar hyd y ffordd wedi newid er pan aethon ni yno gyntaf ddeng mlynedd yn ôl. Aethon i ymweld â swyddfa'r Groes Goch yn y ddinas. Cafodd adeilad helaeth y Groes Goch ei ddifrodi yn ystod y rhyfel, ac allan nhw ddim fforddio ei ailadeiladu, felly maen nhw'n rhentu swyddfeydd yng nghanol y ddinas.

Gadael Sarajevo am Tuzla, dwyawr a hanner arall o daith. Cwrdd â'r wraig sy'n gyfrifol am y Groes Goch yn y dref hon. Aeth hi a'i gŵr, sy'n feddyg, â ni i barc lle roedd cofeb i 75 o bobl ifanc a gafodd eu lladd un noson braf yn 1995. Roedd y rhain ymysg criw mawr o bobl ifanc (Mwslemiaid a Chroatiaid Bosnia) a oedd yn mwynhau eu hunain yn y 'sgwâr' pan ffrwydrodd ffrwydryn, a daniwyd gan y filwyr Serbia o fryn cyfagos, yn eu canol. Lladdwyd 75 ar unwaith, bron, ac fe ddioddefodd llawer o'r gweddill anafiadau erchyll. Penderfynodd pobl y dref y dylid claddu'r ieuencid i gyd gyda'i gilydd, waeth beth oedd eu crefydd a'u cefndir. Roedd hon yn fangre hynod o deimladwy – 75 o feddau o farmor du wedi'u goleuo gan lifoleuadau gwan yn creu naws arbennig, ond mor ofnadwy o drist. Roedd yr hynaf o'r rhai a laddwyd yn 21 oed, a'r ieuengaf a welais yn ddim ond teirblwydd – a'i hoff dedi mewn casyn gwydr ar ben y bedd. Pur dawedog oeddem wrth fwyta ein swper y noson honno.

### *11 Ebrill*

Gadael Tuzla am Srebrenica, a Gweriniaeth Serbska. Mae'n fwy cyntefig yma – ceffyl a throl yw'r ffurf fwyaf cyffredin o deithio, a gwelsom ych yn aredig y caeau. Rydym yn gyrru drwy Cravića, lle gwelwyd erchyllterau creulon yn ystod y rhyfel, ac ymlaen i weld

cofeb arbennig yn Srebenica: dau adeilad, un ohonynt yn rhyw fath o amgueddfa â lluniau dros y waliau i gyd. Mae'r fynwent yr un faint â dau neu dri o gaeau mawr, ac mae'n llawn cerrig beddi 'gwyrdd', sy'n fy atgoffa o blanhigion bychain yn torri drwy'r tir yn y gwanwyn cynnar. Ond, nid dathliad o fywyd newydd a geir yma. Dyma fan claddu 1,500 o bobl, ac mae'r nifer yn cynyddu wrth i fwy o gyrff gael eu canfod a'u hadnabod. Credir i hyd at 6,000 o bobl o ardal Srebenica gollu eu bywydau yn ystod 1995; canfuwyd cyrff tua 4,500 hyd yma. Roedd yn drist gweld grwpiau o gerrig beddi – i gyd yn dwyn yr un enw, gan awgrymu bod teuluoedd cyfain wedi cael eu difa. Daethom ar draws gŵr a gwraig oedrannus; unwaith, roedd ganddynt bedwar o blant, dau fab a dwy ferch. Aed â'r ddau fab i ffwrdd gan y Serbiaid; yn ddiweddarach, cafwyd hyd i gorff y mab 19 oed, ond doedden nhw ddim yn gwybod beth oedd wedi digwydd i'r mab 14 oed. Ond, oedden nhw'n ofni'r gwaethaf. Roedd eu dwy ferch yn briod, ac fe aed â'r gwŷr hwythau i ffwrdd gan y Serbiaid; bellach, mae'r ddau yma hefyd wedi'u claddu yma. Byddai'r gŵr a gwraig yn ymweld â'r fynwent bob dydd ac yn treulio oriau lawer yn gofalu am y beddau. Nid y nhw oedd yr unig rai; roedd llawer o deuluoedd eraill yn yr un sefyllfa â nhw.

### *12 Ebrill*

Diwrnod gadael Mostar – galw yn y warws i ffarwelio, ac erbyn 8.30 a.m. roeddem ar eu ffordd adre i Aberystwyth. Yn anffodus, anghofiais droi golau'r fan ymlaen ar ôl stopio i gael disel. Cyn hir, roedd un o'r plismyn lleol yn gofyn inni aros ar ochr y ffordd, ond ar ôl ymddiheuro'n llaes, fe gafwyd caniatâd i fynd ymlaen â'r daith. Erbyn hyn, rhaid bod â'r golau mawr ymlaen ar gar, fan, ac yn y blaen, drwy'r dydd yn Slovenia, Croatia a Bosnia. Aethon ni ar hyd y draffodd o Split i Otocac, ac mae'n dipyn o help ein bod yn gallu osgoi talu'r tollau o ddangos llythyr oddi wrth y Groes Goch yn Mostar. Erbyn 22.00 roeddem hanner ffordd drwy Awstria, a phan oeddem yn noswyllo roedd yn bwrw eira'n drwm!

### *13 Ebrill*

Roedd yn dal i fwrw eira'n drwm wrth inni yrru am gannoedd o filltiroedd ar yr Autobahn drwy'r Almaen. Cawsom daith hwylus – roedd y problemau i gyd ar ochr arall y draffodd, diolch fyth, ac rydyn ni'n cyrraedd Jabecke (Belgium), lle roeddem i gysgu'r noson honno, erbyn 20.30 – yn ddigon cynnar i gael swper hamddenol.

### *14 Ebrill*

Bore braf a heulog yn Belgium. Cysgu'n hwyr, a chyrraedd Dunkerque jyst mewn pryd i ddal y llong 10 o'r gloch – rydw i bron yn siwr mai ein cerbyd ni oedd yr olaf ar y fferi. Cyrraedd Dover, ac roedd yn oer a niwlog. Erbyn inni gyrraedd yr M25 roedd yn glawio'n drwm, ac araf iawn oedd y daith. Gyrru adref drwy Gaerloyw, Henffordd, Rhaeadr – er mwyn osgoi'r doll ar bont Hafren. Efallai ein bod yn osgoi'r tollau ar draffyrdd yr Eidal, Slofenia a Croatia – ond nid felly wrth gyrraedd Cymru!! Erbyn 19.00 rydyn ni wedi cyrraedd adref, ac am 1930 rydw i yn y bath!

### *I gloi*

Er gwaethaf yr holl bryderon, roedd hon yn un o'r teithiau mwyaf gwerthfawr a gefais ers amser. Doeddwn i ddim wedi bod yn Tuzla ers rhai blynyddoedd nac wedi bod yn

Srebenica o'r blaen. Roedden ni wedi bwriadu mynd yno ar un o'n teithiau cynnar, ond ni chawsom fynd ymhellach na Sarajevo'r tro hwnnw, a bu'n rhaid mynd â'r nwyddau i'r ysbyty yn Pozarić.

Oherwydd newidiadau yn fy mhatrwm gweithio, mae'n annhebygol y byddaf yn gallu mynd drosodd deirgwaith y flwyddyn am y ddwy flynedd nesaf (er fy mod yn dal i ystyried hynny), felly, bydd fy nhaith nesaf tua diwedd Medi / dechrau Hydref.

Fel arfer, mae arnaf ddyled fawr i'r bobl hynny sy'n parhau i'nghefnogi drwy roi rhoddion o fwyd, dillad ac arian; heb y cymorth hwn, fyddai'r teithiau hyn ddim yn bosib. Felly, 'diolch yn fawr iawn i chwi i gyd'!